The initial location of the care home would have involved a significant cut requiring the removal of 4,550m^3 of soil. Analysis of alternate location options utilising the 3D model showed that by raising the building 500mm and moving it 3m a cut/fill balance could be achieved. Thus, providing a significant saving in time and money for the project.

Areas of opportunity for Castleoak were highlighted by Gillard Associates:

1. Design; Earlier involvement may have helped planning authorities to visualise the development, smoothing the planning process.

2. Scheduling; BIM can provide accurate information for material procurement reducing the need for over ordering.

3. Quality Control; BIMx offers the opportunity to perform virtual/visual checks during and after construction.

4. Parametric Objects; The design of repetitive spaces or objects within a BIM software application can be rationalised by the use of parametric or intelligent modelling, in which all or any attribute can be varied or fixed depending on set criteria.

7 Future proofing - Application of Environment Bill

The project has highlighted future potential issues for the industry. Specifically with regard to the upcoming incineration and landfill bans for wood, paper, cardboard, glass, plastic, metal and food waste as part of the Environment (Wales) Bill.

If the Bill were applied to this project up to 93.66m^3 (41.7 tonnes) of material would require an alternate disposal solution. As such, research will need to be carried out to understand what alternate disposal options, along with the appropriate infrastructure, are necessary to enable the necessary changes required by legislation.

8 Key challenges

8.1 Waste

The main challenges around site waste were:

- Lack of commitment to segregation – site operatives and site management
- Design – complex roof design leading to significant quantities of waste and offcuts
- Site errors – incorrect specification of bricks used for the lift shaft, incorrect material ordering
- Late uptake of BIM – much of the design work was completed before the EZW programme started. This meant, the early adoption of BIM on the project wasn't possible and therefore limited its effectiveness at Bryn Ivor Lodge. It was always expected that a 'retrospective' BIM on this project would help influence future Castleoak timber frame designs

8.2 Behavioural/cultural Challenges

Castleoak is an ISO14001 and BS8555 certified company. As such the company has in place an environmental policy, procedures and a dedicated environmental team. Even with this commitment it was sometimes difficult to ensure all operatives, and levels of the supply chain, were bought in to responsible waste management procedures at all times. Findings during the project have highlighted the impact and importance that waste aware operatives and supply chain have on waste generation.

Pre-let meetings were held and waste was discussed during the meetings. However, if the sub-contractor does not follow through with the agreed site and contractual agreements this can lead to deviation in waste expectations. It is imperative that management and sub-contractors take ownership of waste management, and that waste management is an active part of their role before and during construction.

Through conversations with sub-contractors and toolbox talks, commitment to the EZW scheme was achieved. However, it is unclear how this commitment was then communicated to all site operatives and how committed they were. Communicating zero waste aims to all site operatives is important to ensure full investment in the scheme. To this end, waste, and its segregation, should be discussed during site induction at all phases of construction and demolition.

8.3 Time

As in the rest of the construction sector, there was a client expectation to complete the project within the agreed timescale. This inevitably results in commercial pressures on principal contractors, and their supply chain. There can then be an impact on environmental and waste performance. Preparation for residents began before construction was fully completed so presented issues for the site team with regards to waste management and segregation levels.

Whilst construction continued, the client received furnishings and fitting deliveries to site, the packaging for which went into the mixed waste skips. The extra waste, combined with the pressure of the handover deadline, lead to a reduction in waste segregation. In the final two months only 14% of waste was segregated compared to a monthly average of 51% and a peak of 90% segregation.

8.4 Design

The roof design would have benefitted from the application of BIM. Clash detection and rationalisation could have been achieved before work began on site. Being aware of clashes in advance removes the need for ad hoc solutions worked out on site, which are often wasteful. Similarly, standardised design and use of BIM would have made the complexity of the roof design clearer in advance. This would have made the site teams aware of the potential waste and time issues. With such issues in mind they would then have been able to conduct an informed value engineering process.

8.5 How has EZW influenced waste management for the project team?

Miles Thomas, Environmental Manager – Castleoak

An extremely challenging site and programme meant that construction efficiency and focus on waste reduction was important to deliver a more sustainable product to our Customer. We have estimated that our initial plans would have resulted in significantly more than 8000m^3 of material leaving site at a cost of more than £100k. With the help of EZW we soon identified huge opportunity to reduce this waste impact.

The waste savings of more than 8000m^3 were achieved through collaborative working between the client, contract, design team, supply chain and with the help of Constructing Excellence in Wales. Many features of the existing site were kept to reduce waste generation further, and high recycling rates were achieved through use of Green Compass / PAS402 Certified companies and Local Authority recycling collections. We have been delighted by these savings and it has certainly solidified and strengthened our processes on commitment to maximising on site reuse.

EZW provided us with more focus on on-going waste management on site. The regular visits by an EZW representative were particularly helpful for the site based colleagues. A good rapport was built up which was appreciated by the team.

Although many improvements were made during and since our work with EZW we do feel that more opportunities were missed and for long periods, the focus on the EZW was sometimes lost because of other demands on the team and business. With hindsight we should have provided more time and resource to assisting EZW and the site team to deliver further waste and efficiency savings.

The inadequate waste management by our demolition contractor and subsequent landfill of many tonnes of potentially recyclable materials acted as a big reminder to the project team to realise the impact and risk that waste management can have on the business.

From a wider sustainability perspective, the work at Bryn Ivor Lodge has helped influence many more of our schemes and processes.

- Incorporation of aspects of BIM and a push to increase its use within Castleoak
- Greater appreciation of design, in particular roof design on our schemes which has influenced work on efficient design and buildability, for example at our Winnersh Care Home
- Strengthen procedures around the selection of demolition and groundwork contractors
- Improvements in reporting and compliance of demolition and groundwork contractors
- Changes in on-site environmental inspections
- Developing more tool box talks for operatives
- On the lookout for surplus-centre type operations around the country
- Work with customers to help us reduce packaging waste towards the end of projects

Castleoak would certainly welcome the opportunity to work with EZW again on future projects in Wales to review our work post-Castleton and identify further areas for improvement and efficiencies in the business.

9 Successes

There were a number of waste management successes on the project:

9.1 Achieving Welsh Government's Waste Targets

Towards Zero Waste (TZW), the Welsh Government's overarching strategy document on dealing with waste in Wales, aims to produce benefits for the environment, economy and for society. TZW sets a target for the construction and demolition industry in Wales to prepare for reuse, recycling or other material recovery at least 70% of waste, by weight, by 2015-16. The target for 2019-20 is 90%.

By achieving 100% reuse, recycling or other material recovery, the construction phase of this project has met the 2015-16 and 2019-20 targets. Providing evidence that TZW presents achievable reuse, recycling or other material recovery targets for the industry.

The Welsh Government aims for 100% diversion of construction and demolition waste from landfill by 2050. This project met the landfill targets on the construction phase. However, 70 tonnes (67%) of demolition waste was disposed of to landfill, preventing the project as a whole from achieving the 100% diversion target. Overall the project achieved 95% diversion of waste from landfill.

Further focus is considered to be required on waste prevention and reuse rather than relying on the efficiencies of waste management infrastructure. A 1.4% reduction of waste still needs to be achieved year upon year in order for the Towards Zero Waste targets for the sector to be achieved.

9.2 BIM

The benefits of BIM have been made apparent to Castleoak. They have taken on board the suggestions and recommendations from the BIM consultant, Gillard Associates used as part of EZW, and are hoping to use BIM in future projects.

9.3 Cost Savings

Cost savings on this project attributed to effective waste management were £170,000. These are detailed in section 5.5 and show how important consideration of waste can be to project finances and profitability.

The majority of this saving £96,460 was achieved by preventing the removal of excavated materials from site. This highlights the importance of considering waste prevention at the design stage to achieving substantial waste and cost savings.

Reuse of onsite materials allowed for approximately £15,094 of saving, purely from disposal costs. Investment in detailed pre-demolition surveys like that undertaken in this case by BRE can reap major financial returns.

Similarly, investment of time in the establishment of a segregated waste compound and effective site practices can achieve financial benefits. 9% was saved on the cost of waste disposal on this project through waste segregation. With improved site practices and use of segregated skips from day one on site, this saving could have been greater.

10 Conclusion and recommendations

The Bryn Ivor Lodge has performed well against established SMARTWaste benchmarks and Welsh Government targets for the construction phase. Whilst targets have been met, further focus is required on waste prevention and reuse, rather than relying on the effectiveness of waste management infrastructure. Opportunities exist for greater efficiency and effectiveness on site, offering potential for waste and cost savings.

Cost savings are available for companies willing to consider the waste hierarchy at all stages of a project. Prevention is the key level in the hierarchy when it comes to unlocking substantial savings, as highlighted by this project. BIM offers an opportunity for designs to be tested and altered with a view to prevention of, for example, clashes or avoidable cut and fill. Both of which can be expensive and wasteful.

The importance of segregation of waste at source has been made clear, along with focussing on and discussing waste at all stages of a project, with all involved on site. Engagement with all members of the site team is important when attempting to maintain best practice and segregation during periods of pressure on site, especially the final stages before handover.

10.1 Client Recommendations

Design can have a significant impact on waste arisings. In this case the client's requirements for the structure to resemble a line of housing led to significant waste and issues in construction. Clients need to be aware how their decisions, including the purely aesthetic, can have knock on impacts on design and therefore waste.

Time decisions and programming can have a significant influence on a project. Pressure to complete can cause a fall in adherence to site practices, such as waste segregation. This then impacts on the project's reuse, recycling or other material recovery rates at a cost which may exceed those that the client is attempting to avoid, by accelerating the build.

10.2 Designer Recommendations

Designers should give greater consideration to the standard sizes of materials during design. Standard dimensions or design in multiples of units of a material would reduce the volume of off-cuts produced. This can be applied to dimensions of rooms or lengths of piping. Engagement with contractors to improve material understanding should be encouraged. Awareness of how intricate design affects waste should also be improved, specifically consideration of complex joints.

BIM offers a viable option for the elimination of design waste. Uptake of BIM will mean more design decisions are made earlier making the process more proactive than reactive. Easy visualisation of each discipline's inputs allows for easy identification of errors or clashes between the designs of different disciplines. Effective working in BIM ensures a constant flow of information, encouraging mutual understanding and good working relationships.

10.3 Contractor Recommendations

The set-up of the waste compound is a key part of the waste management strategy and should be a major concern of the site waste champion during planning for work on site. Waste compounds should contain segregated skips from day one on site and their purpose explained to everyone on site. Ideally a mixed waste skip should not be available, but if it is necessary it should be located furthest away from the site works, to discourage its use.

In addition, it is crucial that the person responsible for producing waste forecasts makes regular contact with the site team to ensure that forecasts are achievable, reasonable and based on previous performance. Waste should be a consideration in the selection of subcontractors. Main/lead contractors should give

consideration to their duty of care and how it extends to the waste disposal options taken by subcontractors. Focus should be given to ensuring contractual obligations, specifying that all stages of the waste hierarchy are observed before disposal to landfill. This will reduce the potential impact of sub-contractor decisions on project reuse, recycling or other material recovery targets.

Packaging waste was a significant challenge on this project, as it often is. Suppliers can play a key role in reducing packaging as long as contractors communicate the problems they face with disposal with their suppliers. Often packaging take-back schemes can be organised with manufacturers or suppliers, but this requires foresight and planning so agreements are in place before the waste becomes an issue.

The upcoming Environment (Wales) Bill will ban disposal by incineration or landfill for wood, paper, cardboard, glass, plastic, metal and food waste. Contractors will need to consider how they will deal with these wastes as the cost for disposal will likely increase to pay for research into alternate disposal options. As highlighted in this report, prevention offers the most cost effective solution so removing waste through greater use of prefabrication should be considered.

Galluogi

DYFODOL DIWASTRAFF

Bryn Ivor Lodge, Cas-bach

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

Galluogi Dyfodol Diwastraff: Castleoak

Cynnwys

Galluogi Dyfodol Diwastraff: Castleoak

1 Crynodeb Gweithredol

Mae Galluogi Dyfodol Diwastraff (GDD) - Enabling Zero Waste yn gynllun gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW) a'i nod yw penderfynu a all y diwydiant adeiladwaith gyrraedd y targedau dim gwastraff a sefydlwyd yn nogfen strategaeth gwastraff Llywodraeth Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff, a sut mae gwneud hynny.

Mae CEW yn gweithio ochr yn ochr â'r diwydiant i roi golwg fanwl ar ba mor gyraeddadwy yw dyfodol diwastraff ar hyn o bryd, ynghyd ag adnabod unrhyw rwystrau cysylltiedig i gyrraedd y targedau, a lledaenu arfer gorau, datrysiadau a chyfleoedd.

Roedd cartref gofal Bryn Ivor Lodge, Cas-bach, yn brosiect £6.1 miliwn a ymgymerwyd gan Castleoak ar ran Barchester Healthcare. Roedd yn golygu dymchwel y ganolfan arddio a'r adeiladau cysylltiedig a oedd yno, ac yna adeiladu cartref gofal ffrâm bren gyda 80 gwely. Cynhyrchwyd y cartref gofal oddi ar y safle yng ngwaith fframiau pren Castleoak yng Nglyn Ebwy.

Yn ystod y rhaglen cafwyd sawl brig amlwg o gynhyrchu gwastraff. Ar ddechrau'r prosiect nid oedd gwastraff yn cael ei wahanu. Deellir fod hyn wedi deillio o nifer o ffactorau yn cynnwys pwysau i ddechrau ar y safle a rheolwr safle asiantaeth dros dro yn ei le. Mae'n bosibl nad oeddent wedi ymrwymo i'r prosiect GDD a pholisïau a gweithdrefnau Castleford ei hun.

Cafwyd cyfraddau ailgylchu o 100% i wastraff briciau, gwastraff anadweithiol, teils a bwrdd plastr. Gyda chyfradd ailgylchu o 92%, yn ôl pwysau, cyrhaeddodd y cyfnod adeiladu darged gyfredol LlC, sef bod isafswm o 70% o bob gwastraff, yn ôl pwysau, yn cael ei baratoi gogyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei adfer erbyn 2015/16. Anfonwyd 3% o'r gwastraff a gynhyrchwyd i adfer ynni mewn cyfleusterau dosbarth R1. Roedd y gwastraff yn cynnwys:

- Gwastraff cardfwrdd: 5.88m^3 (20% o gyfanswm y gwastraff cardfwrdd))
- Gwastraff pren: 15.56m^3 (10% o gyfanswm y gwastraff pren)
- Gwastraff cyffredinol cymysg: 53.88m^3 (14.9% o gyfanswm y gwastraff cyffredinol cymysg)

Nod Llywodraeth Cymru yw dargyfeirio 100% o wastraff adeiladu a dymchwel o dirlenwi erbyn 2050. Roedd y prosiect hwn yn bodloni'r targedau tirlenwi yn y cyfnod adeiladu. Ond, gwaredwyd 70 tunnell (67%) o wastraff dymchwel i dirlenwi, gan atal y prosiect yn gyffredinol rhag cyrraedd y targed dargyfeirio 100%. Drwyddi draw cyrhaeddodd y prosiect 95% dargyfeirio gwastraff o dirlenwi, fesul tunnell.

Er bod y targedau uchod wedi'u cyflawni, ystyrir fod angen sylw pellach ar atal ac ailddefnyddio gwastraff, yn hytrach na dibynnu ar effeithiolrwydd y seilwaith rheoli gwastraff. Mae angen i'r sector adeiladu ostwng gwastraff 1.4% flwyddyn ar ôl blwyddyn er mwyn bodloni targed Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Roedd yr arbedion cost ar y prosiect hwn a briodolwyd i ystyried hierarchaeth gwastraff a rheoli gwastraff yn effeithiol dros £170,000. Manylir ar y rhain yn adran 5.5 ac maent yn cyfateb i bron 2.8% o gyllideb y prosiect, sy'n dangos pa mor bwysig y gall ystyried gwastraff fod i gyllid a phroffidioldeb prosiect.

Mae llwyddiannau eraill y prosiect yn cynnwys:

- Gwneud arbediad cost o tua £170,000 oherwydd ystyried yr hierarchaeth gwastraff
- Arbedwyd 9% ar gost gwaredu gwastraff ar y prosiect hwn drwy wahanu gwastraff
- Roedd y prosiect 20.7% a 6.9% yn llai gwastraffus na meincnodau SMARTWaste a sefydlwyd i adeilad gofal iechyd, fesul 100m^2 a fesul £100k
- Roedd manteision amlwg o ddefnyddio Modelu Gwybodaeth am Adeiladau (BIM) i Castleoak
- Ailddefnyddio deunyddiau ar y safle diolch i arolwg cyn-dymchwel manwl a wnaed gan BRE ar ran o CEW
- Rhwystro deunyddiau a gloddiwyd rhag cael eu symud o'r safle.

Mae argymhellion i gontractwyr yn cynnwys:

- Dylai fod yn flaenoriaeth i gontractwyr gael aelod o dîm y safle sy'n cymryd perchnogaeth dros reoli gwastraff. Yn ychwanegol, mae'n hanfodol fod y sawl sy'n gyfrifol am gynhyrchu rhagolygon gwastraff yn cysylltu'n rheolaidd â thîm y safle i sicrhau fod y rhagolygon yn gyraeddadwy, yn rhesymol ac yn seiliedig ar berfformiad blaenorol
- Pwysigrwydd gwahanu gwastraff yn y tarddiad yn amlwg i bob aelod o'r tîm ar y safle
- Dylid rhoi sylw i wastraff a'i drafod ar bob cam o brosiect, gyda phawb sydd ar y safle.

Mae argymhellion i gleientiaid yn cynnwys:

- Angen bod yn ymwybodol o sut mae eu penderfyniadau, yn cynnwys y rhai esthetig yn unig, yn gallu cael effeithiau cynyddol
- Mae cyfathrebu parhaus ag ymgynghorwyr dylunio a chontractwyr yn bwysig
- Gall pwysau i gwblhau gwaith achosi dirywiad o ran glynu at arferion safle, megis gwahanu gwastraff

Mae argymhellion i ddylunwyr yn cynnwys:

- Ystyried meintiau safonol deunyddiau yn ystod y dylunio
- Ymgysylltu â chontractwyr i wella dealltwriaeth o'r deunydd
- Ymwybyddiaeth o sut mae dyluniad cywrain yn effeithio ar wastraff
- Ymwybyddiaeth o sut bydd BIM yn arwain at fwy o benderfyniadau dylunio'n cael eu gwneud ynghynt

Pe bai Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn weithredol i'r prosiect hwn, byddai hyd at 93.66m^3 (41.tunnell) o ddeunydd angen ei waredu mewn ffordd arall. Mae hyn yn dangos yr angen i ymchwilio i opsiynau gwaredu amgen, ynghyd â'r seilwaith addas, sy'n angenrheidiol i alluogi'r newidiadau a fynnir gan y ddeddfwriaeth.

2 Cefndir

2.1 Galluogi Dyfodol Diwastraff

Mae Galluogi Dyfodol Diwastraff yn gynllun gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW) sy'n rhoi cymorth ymarferol, cadarnhaol a rhagweithiol i brosiectau adeiladu, dymchwel a pheirianneg sifil yng Nghymru. Y nod yw sefydlu os, a sut, y gall y diwydiant adeiladu gyrraedd y targedau dim gwastraff a osodwyd yn strategaeth LlC, Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

Mae CEW yn cynnig i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn prosiect Gallu Dyfodol Diwastraff gyngor technegol, arbenigedd a chanllawiau ar reoli gwastraff a Modelu Gwybodaeth am Adeiladau (BIM) er mwyn helpu i oresgyn rhwystrau i leihau gwastraff a dylunio ar gyfer dadadeiladu. Caiff pob prosiect becyn unigol wedi'i deilwra i gyd-fynd â'i anghenion.

Mae CEW yn gweithio ochr yn ochr â'r diwydiant adeiladu i gael golwg fanwl ar sut mae cyflawni dyfodol diwastraff. Y nod yw rhannu datrysiadau a chyfleoedd arfer gorau, ynghyd ag adnabod unrhyw rwystrau sy'n gysylltiedig â chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru. Mae CEW yn cynnig cymorth ymarferol i dimau dylunio a safle prosiect i edrych ar ffyrdd hyfyw o gyrraedd dim gwastraff ac amcanion prosiect Galluogi Dyfodol Diwastraff sef:

- Deall a phrofi pryd a sut mae gwastraff yn digwydd yn ystod y broses adeiladu
- Deall y strategaethau, y dulliau a'r cyfleoedd presennol ar gyfer dargyfeirio gwastraff safle i ffwrdd i dirlenwi
- Dadansoddi dichonoldeb/hyfywedd dim gwastraff i dirlenwi yn yr amgylchedd sydd ohoni
- Gweithio ar ddatblygu datrysiadau i atal a lleihau cynhyrchu gwastraff ar safle, gan arwain at ostyngiad mewn costau rheoli, gwaredu a thirlenwi
- Cefnogi newid ymddygiad a phrosesau a fydd yn annog atal a chadw gwastraff i'r lleiafswm
- Gwneud safleoedd yn fwy effeithlon yn sgil cyfleoedd/datrysiadau rheoli gwastraff
- Lleihau traffig safle drwy ostyngiad mewn cyflenwadau a deunyddiau sy'n caniatáu arbedion cost
- Lledaenu datrysiadau a chyfleoedd yn sgil datblygu strategaethau rheoli gwastraff effeithiol
- Darparu cyfleoedd dysgu ac addysg am dechnegau rheoli gwastraff gwahanol y gellir eu lledaenu ar gyfer prosiectau i'r dyfodol, felly'n sicrhau manteision parhaus

2.2 Castleoak

Mae gan Castleoak dros 30 mlynedd o brofiad yn gweithio yn unig yn y sector gofal a byw wedi ymddeol ac mae wedi ennill gwobrau am gyflawni cartrefi gofal, fflatiau byw â chymorth a gofal ychwanegol, pentrefi gofal a chynlluniau gofal arbenigol.

Mae gwasanaethau dylunio ac adeiladu Castleoak yn mynd reit o ddechrau'r prosiect i ddodrefnu a darparu offer. Mae datrysiad datblygu arobryn llawn ar gael hefyd, sy'n cynnwys chwilio a chaffael tir, demograffeg, dadansoddiad o ddichonoldeb prosiect, caniatâd cynllunio a datrysiadau cyllid wedi'u teilwra'n arbennig.

3 Cefndir y Prosiect

Prosiect a ymgymerwyd gan Castleoak ar ran Barchester Healthcare oedd cartref gofal Bryn Ivor Lodge. Roedd yn golygu dymchwel canolfan arddio a'r adeiladau cysylltiedig ac yna codi cartref gofal ffrâm bren gyda 80 gwely. Cynhyrchwyd y cartref gofal oddi ar y safle yng ngwaith fframiau pren Castleoak yng Nglyn Ebwy. Mae arwynebedd llawr mewnol gros y cartref gofal ychydig dros 4,000m^2.

Roedd y rhaglen adeiladu i fod i ddechrau ym mis Chwefror 2014 a'r dyddiad cwblhau oedd Mawrth 2015. Cafwyd oedi yn rhaglen y prosiect yn sgil trafodaethau parhaus â'r adran gynllunio yng Nghyngor Casnewydd i godi lefel y llawr 500mm a symud yr adeilad 3m i leihau swm y pridd oedd angen cloddio. Felly dechreuodd y prosiect ym mis Mehefin 2014 a'i drosglwyddo i'r cleient ym Mehefin 2015.

Ar ddechrau'r prosiect Galluogi Dyfodol Diwastraff (GDD), roedd dyluniad y cartref gofal wedi'i derfynu, roedd y caniatâd cynllunio gwreiddiol yn ei le, ac roedd contractwr, isgontractwyr haen un, cyflenwyr a chontractau rheoli gwastraff i gyd wedi cael eu penodi.

3.1 Cost

Gwerth cost y prosiect oedd £6.1 miliwn.

3.2 Math y Contract

Gwnaed y dylunio a'r adeiladu gan Castleoak.

4 Methodoleg

Mae pob prosiect GDD yn cael cynllun gwaith/ methodoleg wedi'i deilwra. Datblygwyd y cynnwys gyda'r tîm prosiect ac fe'i ddyluniwyd i wella unrhyw fesurau a oedd ar y gweill yn barod.

Drwy gydol y prosiect, roedd tîm prosiect Castleoak yn cael:

1) Cymorth a chanllawiau technegol ar reoli gwastraff drwy gydol adeiladu'r safle i helpu gyda'r nod o fynd â dim gwastraff o gwbl i'w dirlenwi
2) Adnodd rheoli gwastraff penodol a neilltuwyd i gynnig cymorth ymarferol â rheoli gwastraff safle ac i gyflawni opsiynau/datrysiadau dim gwastraff posibl i broblemau gwastraff safle. Roedd y cymorth hwn yn cynnwys:

- Ymweliadau ar y safle
- Cefnogaeth rheoli gwastraff yn cynghori ar fwy o wahanu
- Adnabod y deunyddiau a ddefnyddid ar y safle
- Lleihau gwastraff drwy annog cadw tŷ da i leihau difrod ac archebu gormod o ddeunyddiau
- Lleihau gwastraff drwy ailddefnyddio neu ddod o hyd i ffyrdd eraill o'i waredu
- Cymorth gyda gweithio â chadwyn gyflenwi'r safle, cleientiaid a chwmnïau rheoli gwastraff i annog cynlluniau dychwelyd, addysg ehangach a chynyddu ansawdd data gwastraff
- Paratoi, monitro a diweddaru Cynllun Rheoli Gwastraff Safle (SWMP) drwy ddefnyddio SMARTWaste y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE)
- Paratoi Model Gwybodaeth am Adeiladu (BIM) o'r safle, a baratowyd o wybodaeth a gyflenwyd gan Mc Canns
- Adolygu a mireinio'r dyluniad drwy ddefnyddio BIM i leihau gwastraff, dadansoddi ac amcangyfrif swm a math y gwastraff fyddai'n codi, ac adnabod gwrthdrawiadau posibl ar y safle.

Gwnaed cyfanswm o dair ar ddeg o ymweliadau safle i gefnogi rheoli gwastraff fel rhan o Alluogi Dyfodol Diwastraff, a oedd yn cynnwys trafodaethau â thîm y safle ynghylch materion safle a gwastraff ar y pryd, cynnydd, atebion posibl a gwelliannau. Rhoddwyd cefnogaeth hefyd i dîm y safle gyda chofnodi data ar SMARTWaste. Ar ôl pob ymweliad safle, rhoddwyd argymhellion i helpu i wella arferion rheoli gwastraff.

Y prif argymhellion rheoli gwastraff oedd:

- Gwella, arwyddion, gwahanu a storio deunyddiau
- Sefydlu cwrt gwastraff penodedig
- Atal cloddio drwy godi lefel yr adeilad
- Penodi hyrwyddwr gwastraff i adolygu a sicrhau fod arferion gorau o ran cydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoli gwastraff yn cael eu dilyn
- Atal deunyddiau ar y safle rhag cael eu difetha drwy eu cadw'n sych a diogel
- Cynnal sgyrsiau bocs tŵls i godi ymwybyddiaeth am atal a lleihau gwastraff
- Cyflwyno sgipiau cardfwrdd wedi'u gwahanu pan gynyddodd gwastraff pacedi ar y safle
- Canfod o ble y daeth y gwastraff pren a sut y gallai adeiladu oddi ar y safle leihau gwastraff

Darparwyd dogfennau a chanllawiau cysylltiedig â'r uchod hefyd.

Gwnaed Modelu Gwybodaeth am Adeiladu (BIM) hefyd fel rhan o'r prosiect i ganfod gwrthdrawiadau posibl ac i chwilio am ostyngiadau posibl mewn gwastraff, yn bennaf drwy ddylunio damcaniaethol neu newidiadau sylweddol. Defnyddiwyd dronau o'r awyr hefyd i gael darlun o'r cynnydd drwy gydol y prosiect.

Roedd cyfathrebu'n cynnwys diweddariadau rheolaidd drwy twitter, digwyddiadau diweddaru, gweminarau a chyflwyniadau.

5 Dadansoddiad Data

5.1 Dadansoddiad yn ôl cyfnodau'r prosiect

5.1.1 Y Cyfnod Dymchwel

Cafodd hen adeiladau'r ganolfan arddio ar y safle eu dymchwel gan Cuddy Demolition. Dangosodd arolwg cyn-dymchwel ychwanegol, a wnaed gan BRE fel rhan o GDD, y gellid cadw'r padiau gwaelod ar y safle a'u hailddefnyddio fel agreg, yn hytrach na'u gwaredu fel gwastraff. Roedd hyn yn caniatáu arbediad gwastraff o tua 712m^3 (890 tunnell). Byddai gwaredu'r deunydd hwn a arbedwyd i'w dirlenwi wedi costio £15,094.40 yn seiliedig ar £21.20/m^3 yn cynnwys treth tirlenwi. Byddai hyn wedi codi costau rheoli gwastraff y prosiect 84%.

Ailddefnyddiwyd y ffyrdd mynediad a'r meysydd parcio ar gyfer yr adeilad newydd. Roedd hyn yn golygu nad oedd angen gwaredu'r ffordd oedd yno'n barod a'r meysydd parcio, ac nad oedd angen adeiladu ffyrdd newydd. Arhosodd cyfanswm o 6000 tunnell 2490m^3, o ddeunydd yn ei le ac atal gwaredu a fyddai wedi costio £52,780 (ar £21.20/m^3).

Arweiniodd dymchwel yr hen ganolfan arddio at 184m^3 o wastraff, 10.6% o gyfanswm y sgil-gynhyrchion gwastraff. Adroddwyd fod y gwastraff fel a ganlyn:

- 44m^3 gwastraff pren
- 48m^3 gwastraff metel
- 92m^3 gwastraff adeiladu cymysg.

Cafodd swm sylweddol o'r gwastraff a gynhyrchwyd yn sgil y gwaith dymchwel, 70 tunnell, ei anfon i'w dirlenwi. Nid oedd hyn wedi cael ei drafod na'i gytuno arno gyda thîm y safle yn ystod y cyfarfod cyn-contract. Y rheswm a roddwyd gan Cuddy oedd mai tirlenwi oedd y dewis gorau oedd ar gael ar gyfer y gwastraff.

Anfonwyd 14.62 tunnell o wastraff pren, (33%), i South Wales Wood Recycling Ltd., cwmni ailgylchu pren ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Maent yn rhwygo gwastraff pren i gynhyrchu sglodion pren mawr, a ddefnyddir i wneud bwrdd sglodion, a deunydd manach a ddefnyddir ar gyfer gwasarn anifeiliaid.

5.1.2 Y Cyfnod Adeiladu

Cynhyrchwyd cyfanswm o 673m^3 o wastraff yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect.

5.1.2.1 Y Sylfeini

Roedd cyfanswm o 33m^3 o wastraff, 1.9% o gyfanswm y sgil-gynhyrchion gwastraff, yn dilyn y cyfnod gosod sylfeini. Roedd mwyafrif hwn, 29.3m^3 o natur gymysg. Roedd gwastraff briciau yn cyfrif am 3.6m^3 o'r cyfanswm ac fe'i gwaredwyd mewn sgip anadweithiol wedi gwahanu a oedd yn arbediad cost o 23.5% ar sgip gwastraff cymysg.

5.1.2.2 Gwaith Strwythurol

Ychydig o dan 235m^3 o wastraff, 13.5% o gyfanswm y sgil-gynhyrchion gwastraff, a gynhyrchwyd gan y gweithgareddau hyn. Gwaredwyd y rhan fwyaf, 118.8m^3, fel gwastraff adeiladu cymysg, yn cael ei ddilyn yn agos gan 63.9m^3 pren a 36.7m^3 gwastraff anadweithiol. Gwaredwyd 1.8m^3 o deils fel gwastraff o ganlyniad i archebu'r fanyleb anghywir. Yn yr un modd, gwastraffwyd 5.5m^3 o friciau o ganlyniad i ddefnyddio cynnyrch anghywir wrth adeiladu siafft y lifft.

5.1.2.3 Crefftau Gorffennu

Cynhyrchwyd cyfanswm o 12.6% o'r sgil-gynhyrchion gwastraff, mae'r manylion fel a ganlyn.

5.1.2.3.1 Parwydydd a chladin bwrdd plastr

Cynhyrchwyd 29.3m3 o wastraff bwrdd plastr, sef 1.7% o'r sgil-gynhyrchion gwastraff.

5.1.2.3.2 Gwaith saer, addurno, inswleiddio'r to, llawr finyl a charpedi

Adroddwyd fod rhan fwyaf y gwastraff o'r gweithgareddau hyn yn gymysg, 62.5m^3. Roedd pren yn cyfrif am 25.7m^3 o'r gwastraff, 18.4m^3 yn gardfwrdd a 11m^3 yn wastraff anadweithiol. Cyfanswm o 117.6m^3, 6.7% o gyfanswm y sgil-gynhyrchion gwastraff.

5.1.2.3.3 Dodrefn, gosodion ac offer (FFE) a chlirio safle

At ei gilydd, cynhyrchwyd ychydig llai na 92m^3 o wastraff drwy'r gweithgareddau hyn, 5.3% o gyfanswm y sgil-gynhyrchion. Roedd y rhan fwyaf o'r gwastraff o natur gymysg, 66m^3. Roedd y gweddill yn wastraff pren, 14.68m^3 a 11m^3 o gardfwrdd. Mae'r swm sylweddol o wastraff cymysg a gofnodwyd yn debygol o fod yn ganlyniad i'r pwysau amser i drosglwyddo.

CARTREF GOFAL BRYN IVOR

CYRCHFAN DERFYNOL Y GWASTRAFF A SYMUDWYD O'R SAFLE





5.2 Dadansoddiad yn ôl rhaglen

Ar ddechrau'r prosiect nid oedd gwastraff yn cael ei wahanu. Deellir mai'r rheswm dros hyn o bosibl yw mai rheolwr safle asiantaeth dros dro oedd mewn gofal. Mae'n bosibl nad oeddent yn ymwybodol o'r prosiect GDD neu bolisïau a gweithdrefnau Castleoak ei hun. Gwellodd gwahanu gwastraff ar y safle o fis Medi pan ddechreuodd rheolwr safle parhaol i Castleoak weithio yno.

Yn ystod y prosiect bu cyfnodau brig amlwg o ran cynhyrchu gwastraff. Manylir isod ar y rhesymau am y cyfnodau brig hyn.

5.2.1 Brig Mehefin 2014

Ym mis Mehefin cynhyrchwyd symiau sylweddol o wastraff adeiladu cymysg, 92m^3, gwastraff pren 44m^3 a gwastraff metel 48m^3 ac roedd hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â dymchwel hen adeiladau'r ganolfan arddio. Drwy wahanu gwastraff pren a gwastraff cymysg, gwnaed arbediad cost o 21.5% y sgip.

Drwy ailddefnyddio padiau gwaelod y ganolfan arddio fel agreg, arbedwyd gwastraff o tua 712m^3 (890 tunnell). Byddai gwaredu i'w dirlenwi wedi costio £15,094.40 yn seiliedig ar £21.20/m^3 yn cynnwys treth tirlenwi. Byddai hyn wedi codi costau rheoli gwastraff y prosiect 84%.

5.2.2 Brig Tachwedd

Cynhyrchwyd cyfanswm o 57.8m^3 o wastraff ym mis Tachwedd. Roedd y mwyafrif yn wastraff adeiladu cymysg, 28.9m^3 (50%) yna pren 16m^3 (28%). Ym mis Rhagfyr cynhyrchwyd 58.8m^3 o wastraff, ac roedd 26.6m^3 ohono (45%) yn gymysg.

Ym mis Tachwedd cafwyd uchafbwynt o wastraff anadweithiol, 12.8m^3. Mae hyn yn cyfateb ag adeiladu siafft lifft gan ddefnyddio'r briciau anghywir. Felly dymchwelwyd y siafft a gwaredwyd y briciau ar gost o 2.5 gwaith cost eu prynu.

5.2.3 Brigau Mawrth ac Ebrill

Ym Mawrth ac Ebrill, cyrhaeddodd y gwastraff a gynhyrchwyd ar y safle ei uchafbwynt cyfnod adeiladu, sef 64.3m^3 bob mis. Mae hyn yn cyfateb i'r cyfnod o'r gweithgaredd crefft mwyaf wrth ruthro i orffen Rhan A yr adeilad. Yn aml rhoddir blaenoriaeth i arbed amser dros wahanu gwastraff yn y cyfnod hwn a gallai hyn egluro natur gymysg y gwastraff.

Roedd mwyafrif y gwastraff yn gymysg, 33m^3 ym mis Mawrth a 29.3m^3 ym mis Ebrill. Sylwyd ar nifer fawr o flociau concrit wedi'u difetha yn y sgipiau, ac yn Ebrill, cynhyrchwyd 11m^3 o wastraff anadweithiol. Roedd y gwastraff briciau yn bennaf yn ganlyniad dymchwel siafft y lifft oherwydd camgymeriad pan ddefnyddiwyd y briciau anghywir. Roedd gwastraff cardfwrdd o ddeunydd pacio yn uchel hefyd ym mis Mawrth, 11m^3, ac felly argymhellwyd fod y safle'n cyflwyno sgipiau cardfwrdd ar wahân.

5.2.4 Brig Mehefin 2015

Gwelwyd uchafbwynt mewn gwastraff adeiladu cymysg, 40.4m^3 ym mis Mehefin. O'r ymweliadau safle a wnaed yn y cyfnod hwn, ystyrir ei bod yn debygol fod llai o wahanu gwastraff yn digwydd oherwydd y pwysau i gwblhau'r prosiect, a chlirio'r safle ar gyfer ei drosglwyddo.

Symudwyd un ar ddeg o sgipiau o wastraff cymysg o'r safle ym mis Mehefin. Roedd tunelledd i'r un ar ddeg hyn 13% yn llai na chyfartaledd y sgipiau gwastraff cymysg am weddill y prosiect. Awgryma hyn fod mwy o lefydd gwag yn y sgipiau, sy'n awgrymu symiau sylweddol o wastraff pacio a gorchudd diogelu, a gallai rhywfaint o'r rhain fod wedi'u gwaredu yn y sgip gardfwrdd am gost 35% yn is.

5.3 Dadansoddiad yn ôl opsiwn rheoli gwastraff

5.3.1 Atal

Roedd lleoliad gwreiddiol y cartref gofal wedi cael ei gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol. Byddai wedi golygu symud 4,500m^3 o bridd ar gost o £21.20/m^3. Drwy ddadansoddi opsiynau eraill o ran lleoliad, gwelwyd drwy godi'r adeilad 500mm a'i symud 3m, y gellid cael cydbwysedd torri a llenwi.

Drwy beidio gorfod symud deunydd a gloddiwyd o'r safle, arbedwyd £96,460 mewn costau rheoli gwastraff, heb gynnwys costau cysylltiedig, er enghraifft llafur, llogi cyfarpar a thanwydd. Byddai hyn wedi dod i bron bum gwaith a hanner yr union gost rheoli gwastraff.

Ailddefnyddiwyd y ffyrdd mynediad a'r meysydd parcio ar gyfer yr adeilad newydd. Roedd hyn yn golygu nad oedd angen gwaredu'r ffordd oedd yno'n barod a'r meysydd parcio, ac nad oedd angen adeiladu ffyrdd newydd. Arhosodd cyfanswm o 2490m^3 o ddeunydd yn ei le ac atal gwaredu a fyddai wedi costio £52,780 (ar £21.20/m^3). Arbedwyd swm tebyg o ddeunydd newydd rhag cael ei gludo i'r safle i ddatblygu 3000m^2 o ffyrdd a meysydd parcio newydd.

5.3.2 Deunydd dros ben

Storiwyd deunyddiau a oedd dros ben ar y safle yn ystod y cyfnod adeiladu o fewn cynhwysydd diogel. Yn ystod wythnos olaf y prosiect, rhoddwyd 2.2 tunnell o ddeunydd dros ben i ganolfan deunyddiau dros ben Abertawe, oedd yn cyfateb i o leiaf 2 sgip. Mae'r ganolfan hon yn derbyn rhoddion o ddeunyddiau dros ben y gellir eu hailddefnyddio ac yn eu dosbarthu i brosiectau cymunedol a chymdeithasol. Mae'n cael gwared ar yr angen i waredu i dirlenwi, gan arbed £340 mewn costau gwaredu ac 891kg o garbon a ymgorfforwyd. Mae'r eitemau a roddwyd yn cynnwys:

Goleuadau Pleth	Teils Wal	Cladin Gorosod Cyfansawdd
Gwlân Ynysu150mm	Biniau Llwch	Briciau Wyneb Coch
Briciau Wyneb Coch	Colfachau Pres (gyda sgriwiau)	Colfachau Arian

5.3.3 Ailddefnyddio

Drwy ailddefnyddio padiau gwaelod y ganolfan arddio fel agreg, llwyddwyd i wneud arbediad gwastraff o tua 712m^3 (890 tunnell). Byddai gwaredu i dirlenwi wedi costio £15,094.40 yn seiliedig ar £21.20/m^3 yn cynnwys treth tirlenwi. Byddai hyn wedi cynyddu costau rheoli gwastraff y prosiect 84%.

Symudwyd paledi pren o'r safle gan Scott Pallets. O'r 461 paled a dynnwyd, aeth 261 ymlaen i gael eu hailddefnyddio (4.7 tunnell, 106m^3). Roedd gwaredu'r 261 hyn am ddim ac arbedwyd £2,436 mewn costau gwaredu.

5.3.4 Ailgylchu

Roedd y cyfraddau ailgylchu a adroddwyd gan Atlantic Waste ar gyfer adeiladu yn cynnwys:

- 100% o'r gwastraff briciau, anadweithiol a theils (55m^3)
- 80% o wastraff cardfwrdd (23.5m^3)
- 100% o wastraff bwrdd plastr (22.92m^3)
- 90% o wastraff pren(140m3) – yn ychwanegol ailgylchwyd 200 o baledi pren (3.6 tunnell, 81.5m3) a dynnwyd gan Scott Pallets
- 80% o wastraff cyffredinol cymysg (289m^3)

Mae hyn yn cyfateb i 84.1% o wastraff adeiladu yn ôl cyfaint, 91.6% yn ôl pwysau.



5.3.5 Adfer Ynni

